OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1634 (Cy.176)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *24 Mehefin 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *25 Mehefin 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 9(2), 9(3) a 9(5) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw.

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Mehefin 2003.

(3) ystyr "y prif Reoliadau" ("t*he Principal Regulations*") yw Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001(**2**).

(4) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio'r Prif Reoliadau

**2.**—(1) Yn rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau (Dehongli) tynnir y cyfeiriad at "Rheoliadau 2001" a'r diffiniad.

(2) Yn rheoliad 3(1)(a) o'r Prif Reoliadau (Dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu a swyddogaethau panel mabwysiadu mewn perthynas â darpar fabwysiadydd), tynnir y geiriau "rheoliad 3(2)(a) o Reoliadau 2001" a rhoi yn eu lle y geiriau "rheoliadau a wnaed o dan adran 56A o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**3**)".

(**1**) 1976 p.36 ("Deddf 1976"). Mae swyddogaethau'r Gwasanaeth Mabwysiadu sydd wedi eu nodi yn adran 1 o Ddeddf 1976, y mae'r pwerau o dan adran 9(2) a (3) yn cael eu harfer mewn perthynas â hwy, wedi eu diwygio gan adran 9 o Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999 (p.18) ("Deddf 1999").

(**2**) O.S. 2001/1272 (Cy.71).

(**3**) 1976 p. 36. Mewnosodwyd adran 56A gan adran 14 o Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999 (p.18). Bydd rheoliadau 2001, a wnaed o dan adran 56A, yn peidio â bod yn effeithiol o'r diwrnod pan ddaw i rym adran 56A newydd a gaiff eu cyflwyno gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*

24 Mehefin 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001 ("Rheoliadau Cymru") i adlewyrchu newidiadau arfaethedig i adran 56A o Ddeddf Mabwysiadu 1976 pan ddaw'r rhannau perthnasol o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i rym. Effaith y newidiadau hynny yw bod Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor 2001, y mae Rheoliadau Cymru 2001 yn cyfeirio atynt, yn peidio â bod yn effeithiol. Mae'r rheoliadau hyn yn tynnu'r cyfeiriad hwnnw a rhoi yn ei le gyfeiriad at reoliadau a wnaed o dan adran 56A o Ddeddf Mabwysiadu 1976.